



Canllaw ar lunio  
Datganiad o Ddiben  
Mesur Plant a Theuluoedd  
(Cymru) 2010



## Contents

Rhan 1: Gwybodaeth am y Datganiad o Ddiben .....	3
Beth yw datganiad o ddiben? .....	3
Ar gyfer pwy y mae'r datganiad o ddiben? .....	4
Pryd y mae angen diwygio'r datganiad o ddiben? .....	4
Cyd-destun cyfreithiol y datganiad o ddiben: .....	4
Rhan 2: Templed Datganiad o Ddiben .....	5
Adran 1: Gwybodaeth am y darparwr (Manylion Cyswllt) .....	6
Adran 2: Ar gyfer gwarchodwyr plant yn unig: Cyfansoddiad eu teuluoedd eu hunain ac a yw'r person cofrestredig (y gwarchodwr plant) yn ofalwr maeth .....	8
Adran 3: Manylion am anifeiliaid anwes neu anifeiliaid eraill ar y safle (os yw'n berthnasol) .....	9
Adran 4: Nodau ac amcanion y gwasanaeth .....	10
Adran 5: Manylion am y plant y darperir gofal iddynt .....	11
Adran 6: Amrywiaeth o anghenion plant perthnasol i'w diwallu .....	12
Adran 7: Iaith/leithoedd a ddefnyddir .....	13
Adran 8: Oriau agor .....	14
Adran 9: Staffio (os yw'n berthnasol) .....	15
Adran 10 – Manylion llawn y ddarpariaeth gan gynnwys: .....	16
Adran 11: Telerau ac Amodau .....	17
Adran 12: Delio â chwynion .....	18
Adran 13: Delio ag argyfyngau .....	19
Adran 14: Adolygu'r Datganiad o Ddiben .....	20

## Rhan 1: Gwybodaeth am y Datganiad o Ddiben

### 1. Beth yw datganiad o ddiben?

1.1. Mae'r datganiad o ddiben yn ddogfen allweddol. Caiff ei ddatblygu'n bennaf ar eich cyfer chi, y rheoleiddiwr (AGC), rhieni / gofalwyr a chomisiynwyr. Mae'n nodi'r weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth a'ch dyheadau o ran diwallu anghenion y plant rydych yn gofalu amdanynt. Dylai ddangos yn glir eich bod yn deall eu hanghenion yn llawn a sut, yn enwedig drwy arweinyddiaeth a rheolaeth, trefniadau staffio, gweithgareddau, trefn, cyfleusterau ac amgylchedd, y byddwch yn gwneud eich gorau glas i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer y plant.

1.2. Mae'n rhaid i'r wybodaeth yn eich datganiad o ddiben fod yn gywir ac yn gyfredol.

## **2. Ar gyfer pwy y mae'r datganiad o ddiben?**

- 2.1. Mae'r datganiad o ddiben yn ofyniad cyfreithiol. Os byddwch yn gwneud cais i gofrestru gwasanaeth â ni, bydd yn rhaid i chi gynnwys datganiad o ddiben fel rhan o'ch cais. Bydd yn rhoi'r wybodaeth ganlynol i ni:
- a) manylion amdanoch chi;
  - b) ble mae'r gwasanaeth wedi'i leoli;
  - c) y math o wasanaeth rydych yn ei ddarparu;
  - d) nodau ac amcanion y gwasanaeth;
  - e) sut y darperir y gwasanaeth hwn.
- 2.2. Er y gellir defnyddio'r datganiad o ddiben i ddarparu gwybodaeth i unrhyw un a allai fod â diddordeb yn eich gwasanaeth, ei brif ddefnydd o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yw darparu meincnod i chi, y rheoleiddiwr, rhieni / gofalwyr a chomisiynwyr i fesur perfformiad y gwasanaeth.
- 2.3. Wrth ystyried eich cais i gofrestru, bydd angen i ni fod yn fodlon y bydd eich gwasanaeth yn darparu'n briodol ar gyfer llesiant y plant ac yn gallu cyrraedd y safonau sy'n ofynnol yn y rheoliadau. Bydd y datganiad o ddiben yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth a ddefnyddir gennym i lywio penderfyniadau i gymeradwyo neu wrthod ceisiadau i gofrestru ac amrywio cofrestriad.
- 2.4. Ar ôl cofrestru, byddwn yn ystyried a yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r datganiad o ddiben yn ystod pob arolygiad.

## **3. Pryd y mae angen diwygio'r datganiad o ddiben?**

- 3.1. Dylech ddiwygio eich datganiad o ddiben pan fyddwch yn gwneud newidiadau sy'n golygu nad yw'n disgrifio'r gwasanaeth rydych yn ei ddarparu a/neu'r ffordd y caiff ei ddarparu yn gywir mwyach. Dylech adolygu eich datganiad o ddiben bob blwyddyn, o leiaf, neu pan fydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r gwasanaeth, megis newid i'r oriau agor neu uchafswm nifer. Dylid darparu copi wedi'i ddiweddarau i AGC cyn gynted â phosibl, lle bynnag y bo'n ymarferol o leiaf 28 diwrnod cyn i'r newid ddod i rym.

## **4. Cyd-destun cyfreithiol y datganiad o ddiben:**

O dan Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010, mae'n rhaid cyflwyno datganiad o ddiben fel rhan o gais i gofrestru. Mae Rheoliad 15 yn nodi'r wybodaeth sylfaenol y mae angen ei chynnwys yn y datganiad o ddiben. Yn ogystal, mae Safon 1.2 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn rhoi rhagor o fanylio

# **Rhan 2**

## **Templed Datganiad o Ddiben**

## Adran 1: Gwybodaeth am y darparwr (Manylion Cyswllt)

Darparwr y gwasanaeth	<i>Rhowch enw'r darparwr cofrestredig</i>																																
<b>Cyfeiriad darparwr y gwasanaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Os yw'r ymgeisydd yn sefydliad, rhowch gyfeiriad prif swyddfa neu swyddfa gofrestrdedig y sefydliad</li> <li>• Os yw'r ymgeisydd yn unigolyn, rhowch gyfeiriad yr unigolyn ar gyfer gohebiaeth;</li> </ul>																																
<b>Endid cyfreithiol. Dim ond i ddarparwyr Gofal Dydd y mae'r adran hon yn berthnasol. Ar gyfer Gwarchodwyr Plant, y Gwarchodwr Plant fydd yr endid cyfreithiol bob tro. <a href="#">Gweler y canllaw cofrestru i gael rhagor o wybodaeth.</a></b>	<table border="0"> <tr> <td>Unigolyn</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td>Personau Cofrestredig ar y Cyd</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td colspan="2"><b>Corff corfforaethol:</b></td> </tr> <tr> <td>Cwmni Cyfyngedig</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td>Cwmni Cyfyngedig Cyhoeddus</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td>Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td>Cwmni Elusennol</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td>Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE)</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td>Awdurdod Lleol</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td>Bwrdd Iechyd Lleol</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td>Corff corfforaethol arall</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td colspan="2"><b>Corff Anghorfforedig:</b></td> </tr> <tr> <td>Partneriaeth</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td>Pwyllgor</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td>Ymddiriedolaeth Elusennol</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td>Corff anghorfforedig arall</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> </table>	Unigolyn	<input type="checkbox"/>	Personau Cofrestredig ar y Cyd	<input type="checkbox"/>	<b>Corff corfforaethol:</b>		Cwmni Cyfyngedig	<input type="checkbox"/>	Cwmni Cyfyngedig Cyhoeddus	<input type="checkbox"/>	Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig	<input type="checkbox"/>	Cwmni Elusennol	<input type="checkbox"/>	Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE)	<input type="checkbox"/>	Awdurdod Lleol	<input type="checkbox"/>	Bwrdd Iechyd Lleol	<input type="checkbox"/>	Corff corfforaethol arall	<input type="checkbox"/>	<b>Corff Anghorfforedig:</b>		Partneriaeth	<input type="checkbox"/>	Pwyllgor	<input type="checkbox"/>	Ymddiriedolaeth Elusennol	<input type="checkbox"/>	Corff anghorfforedig arall	<input type="checkbox"/>
Unigolyn	<input type="checkbox"/>																																
Personau Cofrestredig ar y Cyd	<input type="checkbox"/>																																
<b>Corff corfforaethol:</b>																																	
Cwmni Cyfyngedig	<input type="checkbox"/>																																
Cwmni Cyfyngedig Cyhoeddus	<input type="checkbox"/>																																
Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig	<input type="checkbox"/>																																
Cwmni Elusennol	<input type="checkbox"/>																																
Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE)	<input type="checkbox"/>																																
Awdurdod Lleol	<input type="checkbox"/>																																
Bwrdd Iechyd Lleol	<input type="checkbox"/>																																
Corff corfforaethol arall	<input type="checkbox"/>																																
<b>Corff Anghorfforedig:</b>																																	
Partneriaeth	<input type="checkbox"/>																																
Pwyllgor	<input type="checkbox"/>																																
Ymddiriedolaeth Elusennol	<input type="checkbox"/>																																
Corff anghorfforedig arall	<input type="checkbox"/>																																

<b>Unigolyn/Unigolion Cyfrifol neu Berson/Personau Cofrestredig</b>	<i>Rhowch enw'r unigolyn sydd wedi'i ddynodi i oruchwyllo'r gwasanaeth ar gyfer y sefydliad (unigolyn cyfrifol) neu enw'r person sy'n gyfrifol fel unigolyn (person cofrestredig)</i>
<b>Person â Gofal</b>	<i>Rhowch enw'r unigolyn a fydd yn gyfrifol am redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd.</i>
<b>Enw'r gwasanaeth</b>	
<b>Cyfeiriad y gwasanaeth</b>	<i>Y cyfeiriad lle mae'r gwasanaeth yn gweithredu.</i>
<b>Manylion cyswllt</b>	<i>Dylai hyn gynnwys enw'r gwarchodwr plant, y Person Cofrestredig neu Unigolyn Cyfrifol, enw'r Person â Gofal, manylion cyswllt gan gynnwys cyfeiriad, rhif ffôn a / neu gyfeiriad e-bost.</i>

## Adran 2: Ar gyfer gwarchodwyr plant yn unig: Cyfansoddiad eu teuluoedd eu hunain ac a yw'r person cofrestredig (y gwarchodwr plant) yn ofalwr maeth

*Yn yr adran hon, dylech roi manylion am y canlynol:*

- *Eich teulu, h.y. unrhyw blant, eu hoedran, unrhyw aelodau eraill o'r cartref sy'n 16 oed neu'n hŷn sy'n byw ar y safle.*
- *Nodwch yn glir a ydych yn ofalwr maeth ai peidio*



## Adran 3: Manylion am anifeiliaid anwes neu anifeiliaid eraill ar y safle (os yw'n berthnasol)

*Os oes gennych unrhyw anifeiliaid anwes neu anifeiliaid eraill ar y safle, dylech gofnodi'r manylion yma, er enghraifft:*

- *pa fath o anifail/anifeiliaid*
- *a yw eu brechiadau yn gyfredol*
- *ble y byddant yn cael eu cadw*
- *sut y byddwch yn sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel rhag unrhyw anifeiliaid anwes/anifeiliaid pan fyddant yn eich gofal*

## Adran 4: Nodau ac amcanion y gwasanaeth

*Dylech nodi beth yw nodau ac amcanion eich gwasanaeth a sut rydych yn bwriadu eu cyflawni, er enghraifft:*

- *cefnogi'r plant i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl drwy ofal, dysgu a chwarae*
- *cefnogi'r plant i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn ddiogel, yn iach ac yn hyderus*
- *sicrhau bod ansawdd y gofal rydych yn ei gynnig yn gwella'n barhaus a bod lleisiau'r plant a'r rhieni / gofalwyr yn cael eu clywed*

## Adran 5: Manylion am y plant y darperir gofal iddynt

*Dylai'r adran hon gynnwys manylion am y canlynol:*

- *Uchafswm nifer y plant rydych yn dymuno gofalu amdanynt ar unrhyw adeg benodol*
- *Oedrannau'r plant rydych yn dymuno gofalu amdanynt*
- *Rhyw y plant rydych yn dymuno gofalu amdanynt*

## Adran 6: Amrywiaeth o anghenion plant perthnasol i'w diwallu

*Mae angen i chi ddisgrifio:*

- *Yr amrywiaeth o anghenion y gall eich gwasanaeth eu diwallu*
- *Sut y byddwch yn ceisio diwallu'r anghenion a'r galluoedd unigol hynny drwy hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth*
- *Sut y byddwch yn sicrhau y caiff yr holl blant a'u teuluoedd eu trin â pharch*
- *Sut y byddwch yn olrhain cynnydd y plant ac yn ymgynghori â'r rhieni*
- *Unrhyw brofiad sydd gennych o ofalu am blant ag anghenion ychwanegol*

## Adran 7: Iaith/leithoedd a ddefnyddir

*leithoedd a ddefnyddir yn y gwasanaeth. Dylech gynnwys:*

- *Y brif iaith a ddefnyddir*
- *Unrhyw iaith achlysurol a ddefnyddir*
- *Unrhyw ieithoedd a addysgir i'r plant*

## Adran 8: Oriau agor

*Dylech gynnwys gwybodaeth am:*

- *Oriau agor y gwasanaeth (gan gynnwys y dyddiau a'r amseroedd rydych ar agor).*
- *Y weithdrefn ar gyfer casglu plant o'r gwasanaeth a'r hyn fydd yn digwydd os bydd rhieni yn hwyr / na all rhieni gasglu eu plant.*

## Adran 9: Staffio (os yw'n berthnasol)

*Yn yr adran hon, dylai'r wybodaeth ymwneud â staff gofal plant a chwarae NEU unrhyw gynorthwywyr gwarchod plant. Er enghraifft, mae angen i chi gynnwys:*

- manylion am unrhyw gynorthwywyr gwarchod plant gan gynnwys eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau*
- cadarnhad o ran a ydych yn bwriadu darparu lleoliad ar gyfer unrhyw brentisiaid / myfyrwyr / gwirfoddolwyr*
- cadarnhad bod eich staff yn gymwys ac yn brofiadol i ofalu am blant hyd at 12 oed*
- gwybodaeth am y gymhareb oedolion i blant sy'n berthnasol i'ch gwasanaeth (fel y'i nodir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, e.e. gwarchodwr plant – Safon 15.7 neu ofal dydd – Safon 15.12).*

## Adran 10 – Manylion llawn y ddarpariaeth gan gynnwys:

- **Y cyfleusterau sydd ar gael** – Disgrifiwch yr ardaloedd dan do ac awyr agored, y teganau a'r cyfarpar chwarae a fydd ar gael i'r plant.
- **Y gwasanaethau a gynigir** – Disgrifiwch y math o wasanaeth rydych yn ei gynnig, e.e. prydau a byrbrydau, gwasanaethau casglu / gollwng i ysgolion lleol, gofal hanner diwrnod, diwrnod llawn neu ar ôl ysgol, ac ati.
- **Y gweithgareddau a gynigir** – Disgrifiwch y gweithgareddau chwarae a dysgu a gynigir i'r plant a sut y caiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd.
- **Yr arferion dyddiol** – Dylech gynnwys enghraifft o arferion dyddiol



## Adran 11: Telerau ac Amodau

*Yn yr adran hon, mae angen i chi ysgrifennu crynodeb o'ch telerau ac amodau. Gallai hyn gynnwys:*

- *Ffioedd*
- *Trefniadau gwyliau*
- *Trefniadau salwch*
- *Trefniadau derbyn / ymgartrefu*
- *Disgrifiad cryno o'r contract rhyngoch chi a'r rhieni / gofalwyr*

## Adran 12: Delio â chwynion

*Yn yr adran hon, mae angen i chi wneud y canlynol:*

- *Egluro'n gryno sut y byddwch yn delio â chwynion ar lafar ac yn ysgrifenedig, gan gynnwys gwybodaeth am sut i gysylltu ag AGC, h.y. cyfeiriad, rhif ffôn a / neu gyfeiriad e-bost.*

*Nid yw cyfeirio at eich Polisi a Gweithdrefn Gwyno yn unig yn ddigon; mae'n rhaid i chi gynnwys crynodeb o'r manylion uchod.*

## Adran 13: Delio ag argyfyngau

*Yn yr adran hon dylech gynnwys, er enghraifft:*

- *Crynodeb o'r weithdrefn gwagio adeg tân*
- *Damwain neu argyfwng meddygol*

*Nid yw cyfeirio at eich Polisi a Gweithdrefn Damwain ac Argyfwng yn unig yn ddigon; mae'n rhaid i chi gynnwys crynodeb o'r manylion uchod.*

## Adran 14: Adolygu'r Datganiad o Ddiben

*Yn yr adran hon, mae angen i chi gynnwys:*

- *Manylion trefniadau i adolygu'r Datganiad o Ddiben bob blwyddyn o leiaf a rhoi gwybod i AGC am newidiadau i'r gwasanaeth*

## **Atodiad 1: Rheoliadau Cofrestru Perthnasol ar gyfer Datganiad o Ddiben**

### **Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010: Rheoliadau 15 a 27.**

#### **Rheoliad 15.**

- (1) Rhaid i'r person cofrestredig lunio, mewn perthynas â'r gwaith gwarchod plant neu'r ddarpariaeth gofal dydd y'i cofrestrwyd ar ei gyfer neu ar ei chyfer, datganiad ar bapur ("y datganiad o ddiben") a rhaid i'r datganiad hwnnw gynnwys –
- (a) datganiad o nodau ac amcanion;
  - (b) datganiad ynghylch ystod oedran, rhyw a nifer y plant y bwriedir darparu gofal ar eu cyfer gan y person cofrestredig ac ynghylch yr ystod anghenion y mae'r person yn bwriadu ei diwallu;
  - (c) datganiad ynghylch y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd i'w darparu neu i'w rhoi ar gael i blant perthnasol;
  - (ch) datganiad ynghylch y gweithgareddau sydd i'w darparu ac ynglŷn â'r iaith neu'r ieithoedd y darperir y gweithgareddau ynddynt; a
  - (d) datganiad o'r telerau ac amodau y darperir gofal yn unol â hwy i blant perthnasol pan fo'r person cofrestredig yn gweithredu fel gwarchodwr plant neu'n darparu gofal dydd, yn ôl fel y digwydd.
- (2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) rhaid i'r person cofrestredig sicrhau ei fod yn gweithredu fel gwarchodwr plant, neu y darperir gofal dydd, yn ôl fel y digwydd, mewn modd sy'n gyson â'r datganiad o ddiben.
- (3) Nid oes dim ym mharagraff (2) nac yn rheoliad 37 sy'n gwneud yn ofynnol bod y person cofrestredig yn torri neu'n peidio â chydymffurfio â'r canlynol, nac yn ei awdurdodi i wneud hynny–
- (a) unrhyw ddarpariaeth arall o'r Rheoliadau hyn; neu
  - (b) yr amodau sydd mewn grym ar y pryd mewn perthynas â chofrestriad y person cofrestredig o dan Ran 2 o'r Mesur.
- (4) Rhaid i'r person cofrestredig –
- (a) cadw'r datganiad o ddiben dan arolwg, a phan fo'n briodol, ei ddiwygio; a
  - (b) pan fo'n ymarferol, hysbysu'r swyddfa briodol ynghylch unrhyw ddiwygiad o'r fath, 28 diwrnod cyn y bo'r diwygiad i gael effaith.

#### **Rheoliad 27**

Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod nifer digonol o bersonau medrus a phrofiadol gyda chymwysterau addas yn gofalu am y plant perthnasol bob amser, o ystyried –

- (a) y datganiad o ddiben a nifer y plant perthnasol a'u hanghenion (gan gynnwys unrhyw anghenion sy'n deillio o unrhyw anabled).

### **Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010: Rhan 2, Adran 24 a 26.**

#### **24 Ceisiadau i gofrestru: gwarchod plant**

- (1) Caiff person sy'n bwriadu gweithredu fel gwarchodwr plant wneud cais i Weinidogion Cymru i gofrestru fel gwarchodwr plant.
- (2) Rhaid i gais —
  - (a) rhoi unrhyw wybodaeth a ragnodwyd am faterion a ragnodwyd,
  - (b) rhoi unrhyw wybodaeth arall y gall Gweinidogion Cymru yn rhesymol ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd ei rhoi.

#### **26 Ceisiadau i gofrestru: gofal dydd i blant**

- (1) Caiff person sy'n bwriadu darparu gofal dydd i blant mewn mangre benodol wneud cais i Weinidogion Cymru i gofrestru fel darparydd gofal dydd yn y fangre honno.
- (2) Rhaid i gais —
  - (a) rhoi unrhyw wybodaeth a ragnodwyd am faterion a ragnodwyd,

(b) rhoi unrhyw wybodaeth arall y gall Gweinidogion Cymru yn rhesymol ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd ei rhoi.

**Safonau Gofynnol Cenedlaethol: Safon 1, Canlyniad 1.2**

1.2 bod Datganiad o Ddiben wedi'i lunio fel y nodir yn y rheoliadau a'r wybodaeth a roddir i ddarpar rieni, ar lafar ac yn ysgrifenedig, am y gwasanaeth a ddarperir;

**Atodiad 2 – [Canllaw cofrestru](#)**